NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Strimvelis ar gyfer trin diffyg adenosin diaminas–imiwnoddiffygiant cyfunol difrifol

7 Chwefror 2018

Mae strimvelis ar gael ar y GIG fel triniaeth posibl ar gyfer diffyg adenosin diaminas–imiwnoddiffygiant cyfunol difrifol lle nad oes perthynas addas cyfatebol ar gael i roi bôn-gelloedd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas ar gyfer fy mhlentyn?*

Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eich plentyn roi gwybodaeth glir i chi, trafod ei opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fywyd fy mhlentyn o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf am i'm mhlentyn gael triniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Imiwnoddiffygiant Sylfaenol y DU (PID UK), 0800 987 8986
- Cynghrair Geneteg y DU, 0207 831 0883

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2819-4

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights